**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher Mawrth 22ain 2017 am 8 o'r gloch yr hwyr yng Nghanolfan Pandy Tudur

Ymddiheuriadau: Gwynfor Davies
Presennol: Gwydion Jones (Cadeirydd), Ian W Griffith, Diane Roberts, Ann Vaughan, Elen Edwards, Einir Williams, Ifor Edwards, Emlyn Williams, Cyngh Dilwyn O Roberts a'r Clerc Cynghorydd Hazel Meredith – ymgeisydd i'r Cyngor Sir.

64.1 DATGAN CYSYLLTIAD – mynegodd Ann Vaughan ddiddordeb yn eitem rhif (a) Cais Cynllunio Rhif 0/43727 Bryn Gwylan

64.2 COFNODION - edrychwyd ar gofnodion cyfarfod 15fed Chwefror a PHENDERFYNWYD yn unfrydol eu bod yn gofnod cywir.

64.3 MATERION YN CODI O'R COFNODION
64.3.1 ARIAN AT Y WEFAN – derbyniwyd ateb gan Un Llais yn dweud bod arian y Llywodraeth at wefannau wedi ei ddosrannu gan y Cynghorau Sirol. Rydym ni wedi derbyn yr arian hwnnw.
64.3.2 BAND EANG – cafwyd ymateb gan Peter Williams, Llywodraeth Cymru yn dweud ei fod yn deall bod problemau caniatâd i osod offer telegyfathrebu yn yr ardal. Adroddodd Elen Edwards bod cais yn mynd i mewn o dan y Cynllun Datblygu Gwledig yn ardal Gwytherin (Whitespaces TV).
64.3.3 HARLEQUIN COTTAGE – adroddodd y Clerc iddi orfod llenwi ffurflen gŵyn ynglŷn a'r datblygiad yno. Erbyn hyn mae ffens wedi ei chodi o flaen y tŷ sydd mewn ardal cadwraeth.

64.4 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD
64.4.1 PONTYDD – mae'n dda cael adrodd fod Pont dros Afon Dyffryn Gall ger Cartref y Ficerdy wedi ei hagor erbyn hyn a bod gwaith wedi ei ddechrau ar bont Hendre Ddu.
64.4.2 ALLT CAPEL CEFN COCH – cafwyd ateb i'n cais yn dweud nad oes bwriad i ail wynebu'r ffordd ar hyn o bryd ond bydd gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud. Penderfynwyd i ysgrifennu i ddweud ein bod yn siomedig am hyn gan fod cymaint o ddefnydd o'r ffordd.

64.5 RHEOLIADAU ARIANNOL DIWYGIEDIG – cafwyd cyfarfod o'r is-bwyllgor cyn cyfarfod y Cyngor ond nid yw eto'n barod i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn.

64.6 MATERION CYNLLUNIO
64.6.1 Cais Rhif 0/43727 Dymchwel a chlirio hen ysgubor dyrnu Rhestredig Gradd II yn Bryn Gwylan, Llangernyw gan Mr Idwal Vaughan. Gadawodd Mrs Ann Vaughan y cyfarfod. PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
64.6.2 Cais Rhif 0/43786 Codi Adeilad Amaethyddol (Cymeradwyaeth Amaethyddol Blaenorol) yn Tan y Graig, Llangernyw gan Mr Dewi Roberts. PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.

64.7 ETHOLIADAU CYNGOR CYMUNED – cynigiodd y Clerc fynd â'r ffurflenni enwebu i Bodlondeb ond eu cael erbyn Mawrth 29ain.

64.8 TOILEDAU LLANGERNYW – yn dilyn trafodaeth â'r Cadeirydd adroddodd y Clerc iddi ddweud wrth y cyfreithwyr y byddai'n well trosglwyddo'r Toiledau yn syth i Fenter Bro Cernyw yn hytrach nag i'r Cyngor Cymuned gan y byddai'n llai o waith a chost. Cafwyd adroddiad gan Ann Vaughan o gyfarfod Menter Bro Cernyw. Penderfynwyd i'r Clerc gysylltu eto â Mr Wil Roberts, Adran Ffyrdd i gael cyfarfod ynglŷn a'r arwyddion twristiaeth ac i wahodd Steve Teale i'r cyfarfod gan fod y Cyngor sirol wedi sôn am arian oedd ar gael ar gyfer arwyddion.

64.9 BLYCHAU FFÔN – cafwyd gwybodaeth gan staff Ysgol Bro Cernyw eu bod yn barod i gymryd ciosg ffôn Llangernyw i'w roi ar dir yr Ysgol. Bydd angen cysylltu â Meira yng Nghyngor Conwy i fynegi hyn a chynigiodd Elen Edwards y byddai Dyfrig yn mynd i olwg y ciosg i weld pa mor anodd fyddai ei symud.

64.10 SWYDD Y CLERC – penderfynwyd i ethol is-bwyllgor i edrych ar gontract a swydd ddisgrifiad Clerc – enwebwyd Einir Williams, Elen Edwards, Gwyn Williams, y Cadeirydd a'r Clerc ac i gyfarfod nos Fawrth 28ain o Fawrth am 8 o'r gloch.

64.11 PWYLLGOR MYNWENTYDD – penderfynwyd i gyfarfod nos Fercher, Mawrth 29ain am 7.30pm i drafod prisiau torri mynwentydd.

64.12 GOFAL CARTREF CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY – mynegwyd bod pryder mawr yn yr ardal ynglŷn a hyn a bod gwahanol gwmnïau yn gwneud y gwaith ac yn newid staff yn aml. Teimlid nad oedd anghenion pobl yn cael eu parchu a'i fod yn fater difrifol. PENDERFYNWYD i ysgrifennu at Wasanaethau Cymdeithasol Conwy ac Ysgrifennydd Iechyd Cymru Mr Vaughan Gething ac i dynnu sylw'r aelodau seneddol at hyn hefyd.

64.13 PAPUR GWYN: DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL – CADERNID AC ADNEWYDDIAD – roedd angen sylwadau i'r Clerc erbyn 11eg Ebrill.

64.14 CEISIADAU ARIANNOL – PENDERFYNWYD i beidio cyfrannu at y Groes Goch na Chanolfan Therapi Plant Cymru. Y Clerc i gadw rhestr o'r ceisiadau.

64.15 CYNLLUN CHWARAE ALLAN CVSC – PENDERFYNWYD i beidio cyfrannu yn ariannol at y Cynllun.
64.16 GOHEBIAETH – PENDERFYNWYD i anfon nifer o'r rhain ar ebost i'r aelodau.

64.17 MATERION LLEOL
64.17.1 Cathod yn broblem yn Llangernyw.
64.17.2 Bydd scipiau cymunedol yn yr ardal 9 i 12 Mai – yn Llangernyw ar 9fed a 10fed, ym Mhandy Tudur ar 11eg ac yng Ngwytherin ar 12fed.
64.17.3 Cyfarfod nesaf – Ebrill 26ain.
64.17.4 Gwter wedi tagu ar allt Pandy Tudur.

64.18 BILIAU

| | |
|---|---|
| Dŵr Cymru (Tap ym Mynwent Llangernyw) | £15.51 |
| Yr Odyn (hysbyseb swydd Clerc) | £12.00 |

Daeth y cyfarfod i ben am 9.45 yr hwyr.

*Cymeradwywyd y Cofndion …G A Jones…… Dyddiad …26/4/17……..*

*Community Council Meeting was held on Wednesday 22 March 2017 at 8 pm at Pandy Tudur Community Centre*

*Apologies: Gwynfor Davies*
*Present: Gwydion Jones (Chair), Ian W Griffith, Diane Roberts, Ann Vaughan, Elen Edwards, Einir Williams, Ifor Edwards, Emlyn Williams, Cllr Dilwyn O Roberts and Clerk*
*Councillor Hazel Meredith - candidate for the County Council.*

*64.1 DECLARATION - Ann Vaughan expressed interest in item (a) Planning Application No. 0/43727 Bryn Gwylan*

*64.2 MINUTES - looked at the minutes of February 15 and RESOLVED unanimously that they are an accurate record.*

*64.3 MATTERS ARISING*
*64.3.1 MONEY TOWARDS WEBSITE - received a reply from One Voice saying that Government money to websites is distributed by the County Councils. We have received that money.*
*64.3.2 BROADBAND - Peter Williams, the Welsh Government responded saying he understands that there are problems with permission to install telecommunications equipment in the area. Elen Edwards reported that an application had been submitted under the RDP for Gwytherin district (Whitespaces TV).*
*64.3.3 HARLEQUIN COTTAGE - the Clerk reported having to fill out a complaint form about the development there. A fence has been erected in front of the house in a conservation area also.*

*64.4 ROAD AND ENVIRONMENT MATTERS*
*64.4.1 BRIDGES - it's good to report that the bridge over the River Dyffryn Gall near The Old Vicarage Nursing Home is open now and that work has begun on the Hendre Ddu bridge.*
*64.4.2 CEFN COCH CHAPEL HILL - answer received saying that there is no intention of resurfacing the road at the moment but maintenance work is carried out. Decided to write to say that we are disappointed about this because the road is used so often.*

*64.5 REVISED FINANCIAL REGULATIONS - there was a meeting of the subcommittee before the Council meeting but is not yet ready for presentation to the full Council.*

*64.6 PLANNING ISSUES*
*64.6.1 Application No. 0/43727 Demolition and clearing old threshing barn Grade II Listed at Bryn Gwylan, Llangernyw by Mr Idwal Vaughan. Mrs Ann Vaughan left the meeting. RESOLVED unanimously to support the application.*
*64.6.2 Application No. 0/43786 Erection of Agricultural Building (Agricultural Prev Approval) at Tan y Graig, Llangernyw by Mr Dewi Roberts. RESOLVED unanimously to support the application.*

*64.7 COMMUNITY COUNCIL ELECTIONS - The Clerk offered to take the nomination forms to Bodlondeb if received by March 29th.*

*64.8 LLANGERNYW TOILET - after discussion with the Chairman the Clerk reported that she told the lawyers that it would be better to transfer the Toilets straight to Menter Bro Cernyw rather than to the Community Council as it would be less work and cost. A report was received by Ann Vaughan on a meeting of Menter Bro Cernyw. Decided to further contact Mr. Wil Roberts,*

*Department of Roads for a meeting on tourism signs and to invite Steve Teale to the meeting as the county council had mentioned funding was available for signing.*

*64.9 TELEPHONE BOXES - information was received from staff of Ysgol Bro Cernyw they are ready to take the Llangernyw call box to be erected on school land. Meira be contacted at Conwy Council to express this and it was proposed that Dyfrig Howatson would look at the kiosk to see how difficult it would be to remove it.*

*64.10 CLERK TO THE COUNCIL - decided to elect a sub- committee to look at contract and job description for Clerk - nominated Einir Williams, Elen Edwards, Gwyn Williams, the Chairman and the Clerk and to meet Tuesday 28th March at 8 pm .*

*64.11 CEMETERY COMMITTEE - decided to meet Wednesday, March 29th at 7.30pm to discuss grass cutting tenders for cemeteries.*

*64.12 CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL HOMECARE - deep concern was expressed about the area and that different companies are doing the work and frequent staff changes. It was felt that people's needs are not respected and that it is a serious matter. RESOLVED to write to Conwy Social Services and Health Secretary Mr Vaughan Gething and to draw the attention of members of parliament to this too.*

*64.13 WHITE PAPER: THE LOCAL GOVERNMENT REFORM - RESILIENCE AND RENEWAL - comments to the Clerk by April 11.*

*64.14 FINANCIAL APPLICATIONS - RESOLVED not to contribute to the Red Cross or Children's Therapy Centre Wales. Clerk to keep a list of applications.*

*64.15 CVSC PLAYING OUT SCHEME - RESOLVED not to contribute financially to the scheme.*

*64.16 CORRESPONDENCE - RESOLVED to send an email of a number of these to members.*

*64.17 LOCAL ISSUES*
*64.17.1 Cats are a problem in Llangernyw.*
*64.17.2 The community skips will be in the area 9th to 12th May - 9th and 10th at Llangernyw, Pandy Tudur on the 11th and in at Gwytherin on 12th.*
*64.17.3 Next Meeting - 26th April.*
*64.17.4 Gutter blocked on Pandy Tudur hill.*

*64.18 BILLS*
*Welsh Water (Llangernyw Cemetery tap) £ 15.51*
*Yr Odyn (job advertisement Clerk) £ 12.00*
*The meeting ended at 9.45 pm.*

*Approved the Minutes ..G A Jones..... Date ……26/4/17……*